



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 20 Chwefror 2013
Tabled on 20 February 2013

Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Public Audit (Wales) Bill

Jane Hutt

1

Schedule 3, page 35, after line 39, insert –

'Variation of employment contracts

- () (1) This paragraph applies where there is a purported variation of the employment contract of –
- (a) an employee of the Auditor General;
 - (b) an employee of the WAO whose employment transferred under paragraph 5.
- (2) The variation is void if the sole or principal reason for varying the contract is –
- (a) the transfer mentioned in paragraph 5(1), or
 - (b) a reason connected with the transfer that is not an economic, technical or organisational reason entailing changes in the workforce.
- (3) Nothing in this paragraph prevents a variation if the sole or principal reason for the variation is –
- (a) a reason connected with the transfer that is an economic, technical or organisational reason entailing changes in the workforce, or
 - (b) a reason unconnected with the transfer.

Collective agreements

- () (1) This paragraph applies where a collective agreement made by or on behalf of the Auditor General satisfies the conditions specified in sub-paragraph (2).
- (2) The conditions are that the agreement –
- (a) existed at the time of the transfer mentioned in paragraph 5(1),
 - (b) was made with a trade union recognised by the Auditor General, and
 - (c) applied in respect of an employee whose employment transferred under paragraph 5(1) (“a transferred employee”).
- (3) After the transfer mentioned in paragraph 5(1) –
- (a) the agreement, in its application to a transferred employee, is to have effect as if made with the trade union by or on behalf of the WAO, and
 - (b) anything done before the transfer under or in connection with the agreement in respect of a transferred employee by or in relation to the Auditor General is to be treated as having been done by or in relation to the WAO.
- (4) Nothing in this paragraph prejudices the application of sections 179 and 180 of the 1992 Act (collective agreements presumed to be unenforceable in specified circumstances) to the agreement.
- (5) In this paragraph –
- “collective agreement” has the same meaning as in the 1992 Act,
 - “recognised” has the meaning given in section 178(3) of the 1992 Act,
 - “trade union” has the same meaning as in the 1992 Act, and
 - “1992 Act” means the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

Trade union recognition

- () (1) This paragraph applies where the group of employees whose employment transferred under paragraph 5(1) maintains an identity distinct from the remainder of the WAO’s undertaking after the transfer.
- (2) Where before the transfer an independent trade union was recognised by the Auditor General to any extent in relation to any employee whose employment transferred, after the transfer –
- (a) that union is to be treated as having been recognised by the WAO to the same extent in relation to those employees, and
 - (b) any agreement for recognition may be varied or rescinded accordingly.
- (3) In this paragraph –
- “independent trade union” has the meaning given in section 5 of the 1992 Act,
 - “recognised” has the meaning given in section 178(3) of the 1992 Act, and
 - “1992 Act” means the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.’.

Atodlen 3, tudalen 35, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

'Amrywiadau mewn contractau cyflogaeth

- () (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo amrywiad honedig yng nghontract cyflogaeth –
- (a) cyflogai i'r Archwilydd Cyffredinol;
 - (b) cyflogai i SAC y trosglwyddwyd ei gyflogaeth o dan baragraff 5.
- (2) Mae'r amrywiad yn ddi-rym os yr unig neu'r prif reswm dros amrywio'r contract yw –
- (a) y trosglwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(1), neu
 - (b) rheswm sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad nad yw'n rheswm economaidd, technegol neu sefydliadol sy'n peri newidiadau yn y gweithlu.
- (3) Nid oes dim yn y paragraff hwn sy'n rhwystro amrywiad os yr unig neu'r prif reswm dros yr amrywiad yw –
- (a) rheswm sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad sy'n rheswm economaidd, technegol neu sefydliadol sy'n peri newidiadau yn y gweithlu, neu
 - (b) rheswm nad yw'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad.

Cydgytundebau

- () (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo cydgytundeb a wneir gan neu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn bodloni'r amodau a bennir yn is-baragraff (2).
- (2) Yr amodau yw bod y cytundeb –
- (a) yn bodoli ar adeg y trosglwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(1),
 - (b) wedi ei wneud gydag undeb llafur a gydnabyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac
 - (c) yn gymwys mewn cysylltiad â chyflogai y trosglwyddwyd ei gyflogaeth o dan baragraff 5(1) ("cyflogai a drosglwyddwyd").
- (3) Ar ôl y trosglwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(1) –
- (a) mae'r cytundeb, o'i gymhwyso mewn perthynas â chyflogai a drosglwyddwyd, i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud gyda'r undeb llafur gan neu ar ran SAC, a
 - (b) mae unrhyw beth a wnaed cyn y trosglwyddiad o dan y cytundeb neu mewn cysylltiad ag ef o ran cyflogai a drosglwyddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol neu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol i'w drin fel pe bai wedi ei wneud gan SAC neu mewn perthynas â SAC.
- (4) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn rhagfarnu cymhwyso adrannau 179 a 180 o Ddeddf 1992 (cydgytundebau y tybir nad oes modd eu gorfodi o dan amgylchiadau penodol) i'r cytundeb.
- (5) Yn y paragraff hwn –
- mae i "cydgytundeb" yr un ystyr â "collective agreement" yn Neddf 1992,
 - mae i "cydnabod" yr ystyr a roddir i "recognised" yn adran 178(3) o Ddeddf 1992,
 - ystyr "Deddf 1992" ("1992 Act") yw Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, ac

mae i “undeb llafur” yr un ystyr â “trade union” yn Neddf 1992.

Cydnabod undebau llafur

- () (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan fo’r grŵp o gyflogeion y trosglwyddwyd ei gyflogaeth o dan baragraff 5(1) yn cynnal hunaniaeth ar wahân i weddill ymgymeriad SAC ar ôl y trosglwyddiad.
- (2) Pan oedd undeb llafur annibynnol wedi ei gydnabod gan yr Archwilydd Cyffredinol i unrhyw raddau cyn y trosglwyddiad mewn perthynas ag unrhyw gyflogai y trosglwyddwyd ei gyflogaeth, ar ôl y trosglwyddiad –
- (a) mae’r undeb hwnnw i’w drin fel pe bai wedi ei gydnabod gan SAC i’r un graddau mewn perthynas a’r cyflogeion hynny, a
 - (b) caniateir i unrhyw gytundeb ar gyfer cydnabyddiaeth gael ei amrywio neu ei ddad-wneud yn unol â hynny.
- (3) Yn y paragraff hwn –
- mae i “cydnabod” yr ystyr a roddir i “recognised” yn adran 178(3) o Ddeddf 1992, mae i “undeb llafur annibynnol” yr ystyr a roddir i “independent trade union” yn adran 5 o Ddeddf 1992, ac
- ystyr “Deddf 1992” (“1992 Act”) yw Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.’.